**Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llanuwchllyn**

**7/5/24**

**Presennol: Y Cynghorwyr** Euros Roberts (Cadeirydd 2023-24), Huw P Roberts (Is-Gadeirydd 2023-24), Huw Antur, Arwel Lloyd Jones, Dewi Wyn Jones, Heledd Jones, Rhodri Jones, Alwyn Roberts,

Hefyd yn bresennol: Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

**Ymddiheuriadau:** Llinos Edwards, Beryl Hughes Griffiths, Alwyn E Jones

1 Cymeradwywyd yn fawr Adroddiad y Cadeirydd ar waith sylweddol y Cyngor yn ystod y flwyddyn 2023-24

2 Etholwyd Huw Pierce Roberts yn Gadeirydd am y flwyddyn 2024-25. Diolchodd i'r cyn-Cadeirydd am ei arweiniad clir a thawel i'r Cyngor ar hyd y flwyddyn ac yn arbennig am arwain y gymuned trwy Cyfarfod Cyhoeddus a'r holl waith a ddeilliodd o hynny i ffurfio'r Menter Gymunedol a phrynu'r Eagles. Diolchodd hefyd am waith a chefnogaeth y Swyddog ariannol a'r Clerc.

3 Etholwyd Alwyn M Roberts yn Is-Gadeirydd am y flwyddyn 2024-25 a diolchwyd iddo am ei barodrwydd i gymryd y swydd..

4 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2023.

**5** Datganiad Ariannol 2023-24 – Cyfrifon Refeniw, Cyfalaf a Mynwent

Incwm yn y flwyddyn: 14820 (praesept) + 10598 (arall)
Gwariant yn y Flwyddyn: 5868 (staff) + 24331 (arall)

6 Penodwyd Cynghorwyr i weithredu ar is-bwyllgorau:

- Is bwyllgor Cyllid: **Cadeirydd y Cyngor,** Alwyn E Jones, Huw Antur, Alwyn Roberts, Bethan Edwards, Lis Puw (+ Is-gadeirydd)
- Is-bwyllgor Mynwentydd: Alwyn Roberts (Cadeirydd), Heledd Jones, Huw Pierce Roberts, Arwel LL Jones, Bethan Edwards, Alan Jones Evans,
- Is-bwyllgor Asedau: Beryl Hughes Griffiths (Cadeirydd), Arwel Lloyd Jones, Rhodri Jones, Bethan Edwards
- Pwyllgor Datblygu: Huw Antur (Cadeirydd), Alwyn Evans Jones, Dewi Jones, Beryl Hughes Griffiths, Llinos Edwards, Cynghorydd Alan Jones Evans, Lis Puw
- Is-bwyllgor y Nadolig: Heledd Jones (Cadeirydd), Arwel Lloyd Jones, Alwyn Jones, Euros Roberts
- Is-bwyllgor bioamrywiaeth: Rhodri Jones (Cadeirydd), Euros Roberts, Llinos Edwards, Huw P Roberts, Lis Puw
- Trefnydd TG: Dewi Wyn Jones / Alwyn M Roberts a'r Clerc

7. Enwebwyd Huw P Roberts yn gynrychiolydd i gyfarfodydd ardal Un Llais Cymru.
8. Enwebwyd Huw Antur  a Alwyn E Jones yn gynrychiolwyr i Bartneriaeth Penllyn.
9. Adolygwyd a chadarnhawyd y Rheolau Sefydlog
10. Adolygwyd a chadarnhawyd y Côd Ymddygiad .
11. Adolygwyd a chadarnhawyd y Rheoliadau Ariannol; nodwyd bod disgwyl diweddariad gan Un Llais Cymru ac y bydd yn cael ei ystyried gan y Cyngor.
12. Lwfansau Cynghorwyr:
    a. Cytunwyd i beidio mabwysiadu cynllun tal mynychu cyfarfodydd.
    b. Cytunwyd i dalu lwfans o £156 yr un i bob Cynghorydd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.  *Nodwyd y gall unigolion wrthod derbyn y tal hwn trwy lythyr at y Clerc.*
    c. Cytunwyd i dalu 0.45c y filltir os yn teithio ar fusnes y cyngor.
    d. Cytunwyd i dalu am aros dros nos os ar fusnes y Cyngor.
    e. Cytunwyd i dalu costau gwarchod os bydd Cynghorydd yn mynychu cyfarfod neu ar fusnes y Cyngor.
13. Adolygwyd rhestr eiddo ac asedau'r Cyngor.
14. Ystyriwyd statws Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol, ond nid yw'r Cyngor yn gymwys.
15. Hyfforddiant: Rhagwelwyd y byddai sylw i Ardal Ni (Cyngor Gwynedd )
16. Penodwyd dyddiadau cyfarfod ar gyfer y flwyddyn 2024-25

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 4/6/24 | 2/7/24 | Awst – dim cyfarfod | | 3/9/24 | 1/10/24 |
| 5/11/24 | 3/12/24 | 7/1/25 | 4/2/25 | 4/3/25 | 1/4/25 |

6/5/25  Cyfarfod Blynyddol